**Cofnodion Drafft: 23-06 (25 Hydref 2023)**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Medwin Hughes | Cadeirydd |
| Grace Quantock | Dirprwy Gadeirydd |
| Bamidele Adenipekun | Anweithredol |
| Barbara Harrington | Anweithredol |
| Jack Evershed | Anweithredol |
| Karen Lewis | Anweithredol |
| Rajan Madhok | Anweithredol |
| Alyson Thomas | Prif Weithredwr (PW) |
| Mwoyo Makuto | Aelod Cyswllt |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Angela Mutlow | Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Ben Eaton | Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Ceri Sullivan | Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Donna Coleman | Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Eleri Soanes | Swyddog Cymorth Gweinyddol |
| Sam Dentten | Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Gorllewin Cymru |
| Sharon Walters | Rheolwr Busnes |

## Croeso a chyflwyniadau, datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau Materion sy'n codi

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Llongyfarchodd Mwoyo Makuto ar ei phenodiad yn Aelod Cyswllt cyntaf Bwrdd Llais.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jason Smith.

1.3 Trafodwyd y gofrestr datgan buddiannau. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd ei fod wedi ymddeol o'i rôl fel Is-ganghellor Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ogystal ag o amrywiol rolau cysylltiedig. Byddai'r gofrestr buddiannau yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

1.4 Cytunwyd bod pob datganiad o fuddiant arall yn gywir ac yn gyfredol. Ni chodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r eitemau i'w trafod.

1.5 Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd y byddai Llais yn adolygu ei bolisi ar ddatgan buddiant a'r ffurflen datgan buddiannau ategol cyn bo hir. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg er mwyn craffu arnynt a rhoi sicrwydd iddynt.

1.6 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

1.7 Cytunwyd ar y log gweithredoedd a phenderfyniadau.  Roedd aelodau'r Bwrdd yn fodlon bod y camau gweithredu canlynol wedi'u cau: A23-03-08, A23-03-12, A23-05-01, ac A23-05-04.

1.8 Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y camau gweithredu a ganlyn:

- A22-01-12: Roedd trafodaeth ar y gweill i drefnu sesiwn gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddysgu am eu profiadau gyda seiberddiogelwch.
- A23-02-07: Cytunodd y Bwrdd yn flaenorol y byddai Llais yn anelu at gyfyngu ar y defnydd o acronymau fel bod yr wybodaeth a ddarparwn yn glir ac yn hygyrch. Byddai geirfa'n cael ei chreu ond byddai'r eirfa wedi'i chyfyngu i acronymau sy'n cael eu cydnabod yn eang.
- A23-05-07: Roedd yr hysbyseb i benodi 2 Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fyw. Anogwyd aelodau'r Bwrdd i rannu'r wybodaeth gyda'u rhwydweithiau.
- A23-05-08: Roedd Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi datblygu briff amlinellol ar wasanaethau fasgwlaidd. Byddai hwn yn cael ei ddiweddaru ymhellach i adlewyrchu trafodaethau a chyfarfodydd diweddar rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chleifion a theuluoedd y rhai yr effeithir arnynt gan y gofal fasgwlaidd a ddarparwyd.  Byddai fersiwn terfynol o'r papur briffio yn cael ei rannu maes o law.

Draft

1.9 Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ar ddatblygiad y seilwaith digidol. Hysbyswyd yr aelodau bod yr holl swyddfeydd bellach ar rwydweithiau Llais ac eithrio swyddfeydd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Roedd yr holl staff yn defnyddio gliniaduron Llais a byddai datblygiad y gwasanaeth defnyddiwr terfynol yn dod i ben yn fuan.

1.10 Roedd y gwaith dylunio a phrofi ar gyfer y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) yn dal i fynd rhagddo. Roedd yr adborth o'r cam profi yn gadarnhaol ac mae'r rhaglen ar y trywydd iawn i roi'r system ar waith erbyn canol Chwefror 2024.

1.11 Hysbyswyd y Bwrdd fod Llais wedi cyfarfod â sefydliadau eraill sydd â chylch gorchwyl tebyg i ddysgu am y dull a ddefnyddiwyd ganddynt i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol. Nid oedd system ddata bresennol Llais yn darparu cyfleuster a fyddai'n gymorth i adnabod dangosyddion perfformiad allweddol addas ar draws ei holl swyddogaethau.

## Adroddiad y Cadeirydd

2.1 Nododd y Cadeirydd y byddai angen i Llais, wrth gyflawni ei swyddogaethau, gadw mewn cof bod darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn paratoi ar gyfer yr amseroedd anodd sydd o'u blaenau oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a chyda misoedd y gaeaf yn agosáu.

2.2 Yn ddiweddarach yn y cyfarfod byddai'r Bwrdd yn trafod a chytuno ar flaenoriaethau strategol cenedlaethol a rhanbarthol Llais am y 6 mis nesaf. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd yr eitem hon a'r gwaith a fyddai'n dilyn.

2.3 Parhaodd y gwaith gyda'r Urdd, Merched y Wawr, Mudiad Meithrin a Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru. Roedd hwn yn gyfle i gynnwys pobl o wahanol oedrannau a chefndiroedd wrth lunio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er gwell. Roedd y gweithgaredd hwn yn rhan annatod o ymrwymiad Llais i wella canlyniadau i bobl Cymru a bod yn rhagweithiol mewn cymunedau.

2.4 Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd o'u rôl bwysig yn sefydlu diwylliant cadarnhaol i Llais ac wrth sicrhau bod y corff yn cynrychioli holl bobl Cymru.

Draft

## Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

3.1 Yn unol â chais y Bwrdd, roedd papur wedi'i gynhyrchu yn cynnwys diweddariad y Prif Weithredwr. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y papur yn nodi rhai o'r gweithgareddau yr oedd wedi'u cyflawni ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

3.2 Darparodd y Prif Weithredwr drosolwg byr o'r papur, gan hysbysu'r Bwrdd bod gwaith wedi'i ganolbwyntio'n bennaf ar ymgysylltu a meithrin perthnasoedd â rhanddeiliaid ac unigolion allweddol.

3.3 Roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Phrif Weithredwr y GIG ynghylch yr heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ystyried yr angen i ddeall yr effaith ar gynigion i newid y ffordd y darperir gwasanaethau a chynnwys pobl a chymunedau yn y trafodaethau hyn.

3.4 Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda nifer o gyrff cynrychioliadol, gan gynnwys STAMMA, sefydliad y DU gyfan sy'n cefnogi pobl sydd ag atal dweud. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar godi ymwybyddiaeth o'r materion a wynebir gan bobl sydd ag atal dweud wrth gael mynediad at ofal y GIG, yn enwedig mewn practisiau meddygon teulu. Nodwyd cyfleoedd hefyd i wella ymwybyddiaeth ymysg staff a gwirfoddolwyr Llais.

3.5 Parhaodd y Prif Weithredwr i gyfarfod â swyddogion polisi allweddol ar draws Llywodraeth Cymru. Pwrpas y cyfarfodydd hyn oedd gwneud cysylltiadau yn unigol, er mwyn helpu i sicrhau bod Llais yn cymryd rhan gynnar mewn datblygiadau polisi a allai effeithio ar brofiad pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

3.6 Cynhaliodd Llais ei gynhadledd staff Cymru gyfan gyntaf. Cynhaliwyd y sesiwn wyneb yn wyneb ac fe gafwyd derbyniad da gan y staff. Roedd hwn yn gyfle defnyddiol i groesawu staff newydd a chlywed gan staff profiadol o ran sut roedd pethau'n mynd yn eu barn nhw. Roedd ffocws y gynhadledd ar nodi diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiadau ein sefydliad.

3.7 Roedd y staff yn awyddus i barhau â'r sgyrsiau hyn. Rydym wedi ymrwymo i gynnal cynhadledd arall ym mis Mawrth 2024. Cytunodd aelodau'r Bwrdd ar bwysigrwydd eu cyfranogiad mewn unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol.



Draft

3.8 Roedd sesiynau dysgu a datblygu staff ar y gweill. Roedd nifer o sesiynau eisoes wedi'u cyflwyno, roedd ffocws y rhain ar ymwybyddiaeth o lywodraethu ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

3.9 Roedd cyfarfod wedi'i gynnal gyda swyddfa'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Roedd trafodaethau wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein hymagwedd at degwch, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal â'n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus, gan gynnwys set o amcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol.

3.10 Roedd y Prif Weithredwr hefyd wedi anfon tystiolaeth ysgrifenedig yn ddiweddar ac wedi darparu tystiolaeth lafar i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd fel rhan o'i ymchwiliad byr ar Gyfiawnder Data: defnyddio data personol yn GIG Cymru.

3.11 Roedd gwaith ar gytuno ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'n darparwyr gwasanaeth yn mynd rhagddo. Nid oedd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi darparu gwasanaeth o'r blaen i gorff nad yw'n rhan o GIG Cymru ac felly roedd y ddau sefydliad yn ceisio llywio'r trefniant unigryw hwn. Roedd y Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn y broses o gael eu cwblhau a byddent yn cael eu cymeradwyo'n fuan.

3.12 Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bwysigrwydd sicrhau bod sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am eiriol dros a chynrychioli'r cyhoedd yn glir bod Llais yno i weithio gyda nhw ac nid i gymryd eu lle.

## Adroddiad gan Bwyllgorau'r Bwrdd:
## - Archwilio a Sicrwydd Risg

4.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yr wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch diweddar.

4.2 Cyfarfu'r Pwyllgor ddiwethaf ym mis Awst 2023 i ystyried a chraffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft 2022/23 cyn i'r ddogfen gael ei rhannu ag Archwilio Cymru. Roedd y Pwyllgor i fod i gyfarfod eto ym mis Hydref 2023 i graffu ar y drafft terfynol ond bu rhywfaint o oedi a oedd y tu hwnt i'n rheolaeth.



Draft

4.3 Roedd disgwyl i'r Pwyllgor gyfarfod eto i graffu ar y drafft terfynol ym mis Tachwedd 2023.

4.4 Mae darparwr gwasanaeth archwilio mewnol wedi'i benodi drwy ymarfer caffael ffurfiol. Bu'r Pwyllgor yn ymwneud â datblygu manyleb y tendr a chytunwyd i benodi'r cyflenwr â'r sgôr uchaf sef Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei bod wedi mynd i gyfarfod rhagarweiniol gyda'r archwilwyr mewnol a'i bod yn teimlo'n bositif am y drafodaeth a'r camau nesaf.

4.5 Yn flaenorol, penderfynodd y Bwrdd benodi 2 Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Roedd hyn mewn ymateb i fylchau sgiliau a nodwyd gan y pwyllgor. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor wrth y Bwrdd fod y rolau hyn bellach yn cael eu hysbysebu drwy wefan Llais a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol.

4.6 Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor am gefnogaeth y Bwrdd i hyrwyddo'r rolau trwy eu platfformau a'u rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol personol.

4.7 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor drosolwg o waith y Pwyllgor ar y gweill, gan gynnwys:

- datblygu a gweithredu proses adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor
- adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor
- Cytuno ar gynllun archwilio manwl Archwilio Cymru
- Cytuno ar y cynllun archwilio mewnol
- Ystyried canlyniadau'r Gwiriad Iechyd TG
- Adolygu adroddiadau rheolaidd
- Adolygiad o’r Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol, y Polisi Caffael a’r Polisi Atal Twyll.

**A23-06-01:** Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd hyrwyddo rolau'r Aelodau Annibynnol trwy eu platfformau a'u rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol personol.

## Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru

5.1 Darparodd Cyfarwyddwr Rhanbarthol rhanbarth Gorllewin Cymru drosolwg o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin

Cymru a’r gweithgarwch rhanbarthol a oedd wedi digwydd yn ddiweddar.

Trosolwg o iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru:

- Mae gan orllewin Cymru boblogaeth o 389,000, yn byw ar draws 3 sir ond mae dwysedd y boblogaeth yn llawer is na'r cyfartaledd.
- Mae 47,000 o’r unigolion hyn yn ofalwyr, ac mae 3,500 ohonynt yn ofalwyr ifanc rhwng 5-17 oed.
- Mae 32% yn aelwydydd un person – Mae hyn yn effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol gan fod angen cymorth ychwanegol ar yr unigolion hyn weithiau yn enwedig wrth iddynt fynd yn hŷn neu os byddant yn mynd yn sâl.
- Mae pobl yn aml yn symud i Orllewin Cymru i ymddeol. Er bod disgwyliad oes yn 78 i ddynion ac 82 i ferched, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu ansawdd bywyd da.
- Mae'r heriau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu yn rhanbarth Gorllewin Cymru yn cynnwys: mynediad at drafnidiaeth; y gallu i deithio mewn car oherwydd ansawdd y ffyrdd; mae unigolion yn aml yn cael eu gadael yn ynysig a heb gefnogaeth os ydyn nhw'n weddw neu os oes angen cymorth neu ofal ychwanegol ar eu partneriaid.
- O fewn y 3 sir, mae rhai pobl yn ddifreintiedig oherwydd diweithdra, addysg, iechyd ac anabledd a thai.
- Mae llawer o'r heriau y mae’r unigolion hyn yn eu hwynebu o ganlyniad i natur wledig yr ardal.
- Mae gan y rhanbarth dros 400 o feddygon teulu yn gweithio yn yr ardaloedd ond mae llawer o'r unigolion hynny yn gweithio'n rhan amser sy'n lleihau nifer yr apwyntiadau sydd ar gael.
- Mae gan bob un o’r awdurdodau lleol ddulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau.

Gweithgarwch rhanbarthol Gorllewin Cymru:

- Roedd un o'r ysbytai lleol wedi'i effeithio gan goncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC), oedd wedi arwain at gau rhai rhannau o'r ysbyty. Roedd rhai cleifion wedi symud i ysbyty lleol arall.  Roedd Llais wedi ymweld â rhai o'r cleifion yr effeithiwyd arnynt gan y sefyllfa i wrando ar eu profiadau.
- Parhaodd ymgysylltu â’r cyhoedd. Roedd y staff rhanbarthol yn ymgysylltu ag unigolion sy'n gweithio mewn sefydliadau partneriaeth yn ogystal ag ymgysylltu â'r cyhoedd mewn digwyddiadau ac mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys, er



Draft

enghraifft, yn Sioe Sir Benfro; Carnifal y Borth; Ysbyty De Sir Benfro; Digwyddiad i ofalwyr yn Sir Gaerfyrddin; a chartrefi gofal lleol.

- Roedd y rhanbarth wedi cyflwyno sylwadau ar ystod o faterion yn ymwneud ag iechyd a gofal, gan gynnwys ymgynghoriad safle ysbyty; ymgynghori â gwasanaethau pediatrig; dadgofrestriadau meddygon teulu; proses gwyno estynedig; cau canghennau a phractisiau meddygon teulu; a gofal offthalmoleg.
- Roedd y tîm wedi ymweld â nifer o leoliadau gofal cymdeithasol, lle cawsant groeso cynnes.
- Roedd gan wasanaeth eiriolaeth cwynion y rhanbarth lwyth achosion o 108, ac roedd 14 o bobl yn aros i'w hachosion gael eu dyrannu i eiriolwr.

5.2 Dywedodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol wrth y Bwrdd fod y rhanbarth yn gweithredu gydag 1 swydd wag yr oeddent yn gobeithio ei llenwi'n fuan. Roedd llawer o'u staff yn gyn-staff y cynghorau iechyd cymuned, ac eithrio ychydig o ddechreuwyr newydd. Roedd recriwtio staff wedi bod yn heriol. Roedd y tîm yn obeithiol y byddai recriwtio'n haws unwaith y bydd Llais yn dod yn fwy sefydledig.

5.3 Roedd y rhanbarth yn awyddus i ddod yn fwy digidol er mwyn helpu i gyrraedd y rheini mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn byddai angen cymorth ar grwpiau penodol i gael mynediad at wasanaethau digidol.

5.4 Darparodd Llysgennad Rhanbarthol Gorllewin Cymru ei feddyliau a'i farn ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngorllewin Cymru. Pwysleisiodd yr heriau y mae'r cyhoedd yn eu hwynebu o ganlyniad i natur wledig yr ardal a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar amseroedd teithio, gwasanaethau brys, a chadw sgiliau yn yr ardal.

5.5 Diolchodd i ranbarth Gorllewin Cymru am eu gwaith caled a'r effaith gadarnhaol yr oeddent yn ei chael ar lawr gwlad.

## Ein Cynllun: Hydref 2023 – Mawrth 2024

6.1 Rhannwyd cynllun arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol gyda'r Bwrdd er ystyriaeth a chytundeb. Roedd angen gwneud rhagor o waith i ddylunio'r ddogfen cyn ei chyhoeddi ond cafodd y cynnwys allweddol ei ddal a'i gynnwys.



Draft

6.2 Roedd y blaenoriaethau wedi'u datblygu yn seiliedig ar ymgysylltu ac adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr cymunedol a grwpiau a phartneriaid. Mae'r ddogfen yn mynd i'r afael â'r meysydd hynny a nodwyd fel y rhai pwysicaf i aelodau'r cyhoedd.

6.3 Bu Tîm Arwain yn ymwneud â llunio blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol Llais. Hysbyswyd y Bwrdd y byddai effaith y cynllun yn cael ei monitro'n barhaus. Byddai diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r Bwrdd.

6.4 Cytunodd y Bwrdd ar y cynllun ond nododd y byddai rhai mân newidiadau o ran cyflwyniad y cynllun yn cael eu gwneud cyn cyhoeddi'r ddogfen.

**D23-06-01:** Cytunodd y Bwrdd ar Ein cynllun: Hydref 2023 – Mawrth 2024

## Ein gweithgarwch

7.1 Darparwyd adroddiad llawn ar ein gweithgarwch ar ffurf papur. Cyflwynwyd crynodeb o’r adroddiad yn y cyfarfod a oedd yn cynnwys:

- Fe wnaethom barhau i hybu ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau gyda gwahanol bobl, cymunedau a sefydliadau ledled Cymru a'r DU.
- Roedd ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn tyfu’n araf, ac roedd y tîm yn hyrwyddo Llais trwy wybodaeth brintiedig a digidol a ddosbarthwyd mewn digwyddiadau, yn ein cymunedau ac i randdeiliaid a phartneriaid allweddol.
- Roedd mwy o bartneriaethau'n cael eu creu gyda nifer o bartneriaid a sefydliadau allweddol ledled Cymru.
- Roedd adborth gan y cyhoedd ar 'ein 100 diwrnod cyntaf' yn cael ei ddefnyddio i wneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch.
- Roeddem yn parhau i wrando a gweithredu ar yr hyn yr ydym wedi’i glywed am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wneud yn siŵr bod y rhai sy’n gwneud penderfyniadau yn y GIG ac Awdurdodau Lleol yn rhoi ystyriaeth go iawn i’n mewnwelediadau.
- Presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru, Pride a'r Eisteddfod Genedlaethol.
- Fe wnaethom barhau i godi a symud pryderon a phroblemau yn eu blaen yn ein cymunedau.
- Datblygu ymhellach sut rydym yn darparu ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, ein swyddogaethau ymgysylltu a chynrychioli.

Draft

- Mae ein heiriolwyr cwynion wedi bod yn cefnogi ei gilydd ar gwynion newydd am ofal cymdeithasol yn ogystal â gweithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i wella ein ffyrdd o weithio mewn partneriaeth.
- Rydym wedi gweithio gyda'n staff, gwirfoddolwyr a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddylunio a rhoi ystod eang o opsiynau gwirfoddoli ar waith, er bod angen gwneud mwy o waith.
- Mae gwaith mewnol hefyd wedi'i wneud i ddatblygu ein systemau a'n gwasanaethau.

7.2 Darparwyd rhai enghreifftiau cynnar o effaith y gweithgarwch hwn. Roedd hyn yn cynnwys:

- Aethpwyd ymlaen ag 814 o gwynion.
- Ymatebwyd i 660 o ymholiadau a allai fod wedi atal cwynion ffurfiol rhag cael eu codi.
- Roedd Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn edrych eto ar eu cynigion i newid gwasanaethau ffrwythlondeb.
- Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gweithio'n agosach gyda byrddau iechyd i gefnogi trosglwyddo cleifion o ambiwlansys i adrannau brys.
- Roedd y Comisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans Brys wedi datblygu ymhellach y dull o ymgysylltu â phobl a chymunedau ynghylch y ffordd y mae'r gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys yn gweithio yng Nghymru.

7.3 Hysbyswyd y Bwrdd y byddai gwaith yn cael ei wneud i fesur pa weithgarwch sy'n gweithio a pha weithgarwch nad yw'n llwyddiannus.

7.4 Byddai'r adroddiad yn cael ei ddatblygu'n ddogfen gyhoeddus a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar wefan Llais.

## Adroddiad Cyllid

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cyllid i'r Bwrdd.

8.2 Roedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â rhai arbedion a wnaed ar draws y sefydliad. Roedd yr arbedion hyn yn bennaf o ganlyniad i oedi wrth recriwtio i'r rolau o fewn ein strwythur sefydliadol.

8.3 Roedd cyfarfodydd misol wedi'u cynnal gyda Thîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru i drafod y gyllideb a'r rhagolygon. Roedd Llais

Draft

wedi bod yn agored ac yn dryloyw yn y trafodaethau hyn i sicrhau bod cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn deall sefyllfa ariannol y sefydliad yn llawn.

8.4 Hysbyswyd y Bwrdd bod Llywodraeth Cymru yn y broses o baratoi'r cyllidebau drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Er nad oedd angen i Llais benderfynu ar ei gais terfynol ar hyn o bryd, roedd yn ddefnyddiol rhoi amlinelliad bras i Lywodraeth Cymru o ofynion y gyllideb fel y gellid ei gynnwys yn eu rhagdybiaethau cynllunio.

8.5 Ni chodwyd unrhyw bryderon gan y Bwrdd am gynnwys yr adroddiad cyllid. Cytunodd y Bwrdd ar bwysigrwydd cynllunio ariannol da a rheolaeth dda dros wariant a gynlluniwyd i gyflawni ein swyddogaethau a'n blaenoriaethau.  Cytunodd y byddai unrhyw danwariant a nodwyd na ellid ei ddefnyddio'n rhesymol yn 2023/24 i gyflawni ein swyddogaethau a'n blaenoriaethau yn cael ei hysbysu i Lywodraeth Cymru i'w ailddyrannu.

**D23-06-02:** Cytunodd y Bwrdd y byddai Llywodraeth Cymru yn cael ei hysbysu am unrhyw danwariant a nodwyd yn 2023/24.

## Strwythur y Sefydliad

9.1 Rhoddwyd diweddariad ar recriwtio. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am rolau y recriwtiwyd iddynt a'r rhai a oedd ar y gweill.

9.2 Hysbyswyd y Bwrdd bod Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn mynd trwy adolygiad mewnol a fyddai'n debygol o effeithio ar lefel yr adnoddau a fyddai ar gael i gefnogi Llais i recriwtio. Roedd Pennaeth Pobl, Llesiant a Datblygu Sefydliadol yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Cydwasanaethau i ddeall hyd a lled yr effaith hon.

9.3 Gwnaethpwyd cynnig i greu rôl o fewn y strwythur trefniadol, sef rôl Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Cydnabu'r Bwrdd ehangder portffolio'r Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol a chefnogodd greu'r rôl newydd hon a fyddai'n darparu cymorth y mae mawr ei angen ar gyflawni gweithrediadau.

9.4 Cytunodd y Bwrdd i rôl y Cyfarwyddwr Gweithrediadau gael ei hychwanegu at y strwythur.

**D23-06-03:** Cytunodd y Bwrdd y byddai rôl y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn cael ei hychwanegu at y strwythur.

## Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

10.1 Cyflwynwyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddrafft i'r Bwrdd ei chymeradwyo. Nodwyd mai dogfen weithio oedd hon, ac y byddai'n cael ei hadolygu'n rheolaidd.

10.2 Roedd drafft cynharach o'r gofrestr risg wedi'i graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac eithrio un risg newydd yn ymwneud â chytuno ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda phartneriaid allweddol. Argymhellodd y Pwyllgor fod y Bwrdd yn cymeradwyo'r gofrestr risg.

10.3 Gofynnodd y Bwrdd i'r camau lliniaru o dan y risg 'methiant systemau' gael eu cryfhau er mwyn nodi'n llawn yr hyn sydd ei angen i amddiffyn y sefydliad rhag ymosodiadau seiber. Hysbyswyd y Bwrdd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i drafod seibergadernid a chymorth, a byddai'r drafodaeth hon yn helpu i lywio'r camau lliniaru hynny a datblygu seibergadernid.

10.4 Nodwyd y byddai'r archwilwyr mewnol newydd eu penodi yn allweddol i lunio'r dull o reoli risg ac i roi sicrwydd ynghylch ei addasrwydd a'i gadernid.

10.5 Cytunodd y Bwrdd ar y gofrestr Risg Corfforaethol.

**D23-06-04:** Cytunodd y Bwrdd ar y gofrestr risg gorfforaethol.

## Hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

11.1 Hysbyswyd y Bwrdd bod Llais wedi derbyn ei hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg terfynol yn dilyn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar y safonau arfaethedig.

11.2 Byddai angen i Llais gydymffurfio erbyn 1 Ebrill 2024. Byddai gwaith yn cael ei wneud i asesu cydymffurfedd cyfredol ar draws pob rhanbarth. Nododd y Prif Weithredwr ein bod wedi bod yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r safonau a osodwyd yn flaenorol ar Gynghorau Iechyd Cymuned ac felly nid oeddem yn dechrau o sefyllfa o ddiffyg cydymffurfedd.

11.3 Byddai gwaith hefyd yn cael ei wneud i ddatblygu ymhellach ein cyfnod ymsefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd er mwyn sicrhau bod unigolion yn deall ymrwymiad Llais i'r Gymraeg a gofynion y safonau yn llawn.

11.4 Nododd y Bwrdd y gofynion statudol a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio.

## Ein Lleoliadau

12.1 Darparwyd adroddiad ar leoliadau presennol a'u cytundebau prydles presennol.

12.2 Er mwyn caniatáu amser i ni ddatblygu ein strategaeth leoli, byddai angen ymestyn rhai prydlesi swyddfeydd presennol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi bod yn darparu cymorth ystadau proffesiynol ar gyfer trafodaethau gyda'r landlordiaid perthnasol. Byddai'r trefniadau prydlesu presennol yn parhau ar gyfer y swyddfeydd a ganlyn:

- Swyddfa Caerdydd a'r Fro
- Swyddfa Cwm Taf Morgannwg
- Gogledd Cymru, swyddfa Bangor
- Powys, Swyddfa'r Drenewydd
- Swyddfa Genedlaethol
- Powys, swyddfa Aberhonddu
- Gorllewin Cymru, Swyddfa Aberdaugleddau

12.3 Yn ogystal, roedd angen cynnal trafodaethau i gytuno ar brydlesi newydd ar gyfer tair swyddfa. Roedd y rhain ar gyfer swyddfeydd Gwent, Caerfyrddin a Gogledd Cymru, Wrecsam.

12.4 Nodwyd nad oedd angen gweithredu ar swyddfa Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, Cimla gan fod y prydlesi yn dal i fod mewn contract.

12.5 Nid oedd angen gweithredu ychwaith ar gyfer swyddfa bresennol Aberystwyth gan fod trefniadau newydd yn cael eu datblygu yn dilyn newidiadau i'r staff yn nhîm Gorllewin Cymru. Roedd opsiwn i ddefnyddio'r ardal desgiau poeth yn un o adeiladau Llywodraeth Cymru yn cael ei archwilio.



Draft

12.6 Nododd y Bwrdd barhad y trefniadau prydles presennol a chytunwyd y dylid symud y trafodaethau ymlaen ar y tri adeilad sy'n weddill - swyddfeydd Gwent, Caerfyrddin a Gogledd Cymru, Wrecsam.

12.7 Hysbyswyd yr aelodau bod gwaith wedi'i wneud i benderfynu a oedd unrhyw rai o swyddfeydd Llais wedi'u heffeithio gan goncrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) a oedd wedi effeithio ar lawer o adeiladau cyhoeddus a godwyd rhwng y 1950au a'r 1990au. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw un o swyddfeydd Llais wedi cael ei heffeithio gan y mater hwn.

12.8 Dywedwyd wrth y Bwrdd y byddai'r Strategaeth Leoli ddrafft yn cael ei hystyried gan y Bwrdd yn ei gyfarfod bwrdd cyhoeddus ym mis Ebrill 2024.

12.9 Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar doriadau prydlesi yn dilyn y trafodaethau oedd yn weddill.

**D23-06-05:** Nododd y Bwrdd barhad y trefniadau prydles presennol a chytunwyd y dylid symud y trafodaethau ymlaen ar y tri adeilad sy'n weddill - swyddfeydd Gwent, Caerfyrddin a Gogledd Cymru, Wrecsam.

**A23-06-02:** Darparu diweddariad ar doriadau prydlesi yn dilyn y trafodaethau sy'n weddill.

## Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

13.1 Gwnaed rhai newidiadau arfaethedig i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i sicrhau llywodraethu da ac effeithlonrwydd gweithredol. Darparwyd manylion y newidiadau hyn.

13.2 Rhoddodd y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu sicrwydd bod y trefniadau newydd yn angenrheidiol ac yn adlewyrchu arferion llywodraethu da.

13.3 Cytunodd y Bwrdd ar y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog diwygiedig.

13.4 Nodwyd y byddai angen gwneud newidiadau yn awr i system Oracle i adlewyrchu'r trefniadau newydd a amlinellwyd yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog diwygiedig.

**D23-06-06:** Cytunodd y Bwrdd ar y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog diwygiedig.

## Unrhyw Fater Arall

14.1 Ni godwyd unrhyw fater arall.

## Rhagolwg

15.1 Nodwyd a chydnabuwyd y rhagolwg fel dogfen weithio a fyddai'n cael ei diweddaru i adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol.

## Cwestiynau gan y cyhoedd

16.1 Nododd y Cadeirydd na dderbyniwyd cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd cyn y cyfarfod.

16.2 Nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn gorfforol bresennol ac felly gofynnodd y Cadeirydd i'r rhai oedd yn ymuno o bell e-bostio unrhyw gwestiynau oedd ganddynt i flwch post ymholiadau Llais: enquiries@llaiscymru.org.

16.3 Daeth y cyfarfod i ben.

Draft